CYFARFOD	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	19 Tachwedd 2026
TEITL	Cynllun Datblygu Lleol Newydd – Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol, Opsiynau Twf a Dosbarthiad Strategol
RHESWM DROS GRAFFU	Rôl i graffu'r Cynllun Datblygu Lleol / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
AWDUR	Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
AELOD CABINET	Cynghorydd Craig ab Iago

1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Mae llunio Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Gwynedd fydd yn cyfarch anghenion tai, cyflogaeth, cymdeithasol ac amgylcheddol trigolion y sir dros y 15 mlynedd nesaf, wedi ei adnabod fel prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

1.2 Cymeradwyodd y Cyngor Llawn y Cytundeb Cyflawni a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2024.

1.3 Yn y cam 'Dewisiadau strategol, gweledigaeth ag amcanion' bwriedir adnabod a phrofi opsiynau strategol, cytuno ar weledigaeth glir, sydd â pherthnasedd gofodol, o ba fath o le anelir ei weld yn ardal y Cynllun a chytuno ar brif amcanion y Cynllun.

1.4 Byddai'n gyfle i'r Pwyllgor gyflwyno sylwadau/argymhelliad ar gyfer ystyriaeth.

2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- Ydi'r weledigaeth yn glir ac yn ddigon uchelgeisiol?

  Mae'r weledigaeth (sydd i'w weld yn rhan 4 o atodiad 1) yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r materion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol perthnasol sydd wedi eu hamlygu o fewn y Prif Faterion nodwyd yn y ddogfen.

- Pa amcanion strategol sydd wedi eu hadnabod?

  Mae'r amcanion strategol i'w weld yn Rhan 5 o'r ddogfen yn atodiad 1.

- A oes angen addasu'r amcanion drafft?

  Bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Ionawr 2027 ar y ddogfen Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol, Opsiynau Twf a Dosbarthiad Strategol. Mi fydd hwn yn gyfle i'r rhai sydd eisiau rhoi ei barn ar y ddogfen gan gynnwys yr amcanion strategol (gweler para 6.2)

- Beth yw'r camau nesaf?

  Mae'r camau nesaf i'w weld yn rhan 9 o'r adroddiad.

3. Crynodeb a'r Materion Allweddol

3.1 Mae'r ddogfen yn atodiad 1 yn ffurfio rhan allweddol o'r broses o baratoi'r CDLl newydd ac, drwy ymgynghori'n gyhoeddus, yn gyfle i gasglu barn a thystiolaeth. Mae'n cynnwys prif faterion yr ardal a gweledigaeth drafft ar gyfer cyfarch hynny yn drwy'r CDLl newydd, amcanion strategol, ac opsiynau twf ac dosbarthiad strategol. Does dim penderfyniadau wedi gwneud ar y pwynt yma.

4. Cefndir

4.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r ddogfen Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol ac Opsiynau Twf a Dosbarthiad Strategol CDLl Gwynedd (2024-2039) (Atodiad 1)

4.2 Mae paratoi CDLl yn broses sy'n cael ei lywio gan dystiolaeth gadarn ac mae'n rhaid iddo gyd-fynd â deddfwriaeth a chanllawiau Llywodraeth Cymru megis, Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) a Polisi Cynllunio Cymru (argraffiad 12). Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r camau o baratoi CDLl.

Pwrpas y Ddogfen

4.3 Mae'r ddogfen yn Atodiad 1 yn ffurfio rhan allweddol o'r broses o baratoi'r CDLl newydd ac, drwy ymgynghori'n gyhoeddus, yn gyfle i gasglu barn a thystiolaeth ar:

- Y Prif Faterion, heriau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu ACLl Gwynedd (Rhan 3.0)
- y Weledigaeth Drafft (Rhan 4.0)
- yr Amcanion Strategol drafft (Rhan 5.0)
- Opsiynau Twf (Rhan 6.0)
- Opsiynau Dosbarthiad Gofodol (Rhan 7.0)

4.4 Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn pwysleisio y dylid datblygu cynlluniau drwy gasglu tystiolaeth, profi opsiynau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn paratoi Hoff Strategaeth.

4.5 Rhennir y papur yn 7 adran. Dyma drosolwg cryno o gynnwys y papur: -

<u>Rhan 1 – Cefndir a Phwrpas</u>

4.6 Mae pwrpas a chyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei amlinellu yn y rhan yma, a cyflwynir trosolwg o bwrpas y ddogfen ymgynghori, h.y. ceisio casglu barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y prif faterion, y weledigaeth, yr amcanion strategol, a'r opsiynau twf a dosbarthiad gofodol er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun. Mae'n nodi'n glir nad oes unrhyw benderfyniadau wedi cael ei wneud ar y pwynt yma.

<u>Rhan 2 – Y Cyd-destun polisi</u>

4.7 Mae'r prif bolisïau, strategaethau a ffynonellau tystiolaeth cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu gosod allan yn y rhan yma. Mae hyn yn darparu'r cyd-destun polisi y bydd angen ei ystyried. Bydd angen i'r CDLl gael ei seilio ar dystiolaeth cadarn tra hefyd yn dangos cydymffurfiaeth efo'r dogfennau sydd wedi eu hamlygu. Mae'n nodi y strategaethau sydd hefyd yn bwysig fel sail i baratoi'r CDLl newydd. Mae'r fframwaith bolisi sydd wedi ei osod allan yn y rhan yma yn

helpu i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau a strategaethau perthnasol ar bob lefel.

Rhan 3 – Prif Faterion

4.8 Mae'r adran hon yn nodi'r prif faterion, heriau a chyfleoedd y mae angen i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ymateb iddynt er mwyn cefnogi cymunedau cynaliadwy a hwyluso twf priodol yng Ngwynedd. Mae'n egluro'r dystiolaeth a'r ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd i adnabod y materion hyn, gan gynnwys polisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol, perfformiad cynlluniau blaenorol, mewnbwn rhanddeiliaid, a barn trigolion a gweithwyr lleol. Bydd y materion allweddol hyn yn sail i lunio gweledigaeth, amcanion a strategaeth y Cynllun newydd.

Rhan 4 – Gweledigaeth

4.9 Mae'r adran hon yn gosod allan y rhesymeg a'r fframwaith defnyddiwyd ar gyfer datblygu gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol, i sicrhau bod y weledigaeth drafft yn adlewyrchu amgylchiadau lleol, ymateb i'r prif faterion a darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer datblygiad a defnydd tir yn yr ardal dros gyfnod y Cynllun.

Rhan 5 Amcanion Strategol

4.10 Mae'r berthynas rhwng y weledigaeth, y prif faterion a'r amcanion strategol yn cael ei egluro yn y rhan hon, gan amlygu sut y bydd yr amcanion yn darparu sail ar gyfer datblygu polisïau'r Cynllun. Mae'r adran hefyd yn esbonio'r cyd-destun polisi a deddfwriaethol sy'n llywio'r amcanion, gan sicrhau eu bod yn cyfrannu at egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy ac yn cyd-fynd â nodau a blaenoriaethau llesiant ehangach. Mae'r amcanion strategol yn cael ei grwpio fesul thema ac mae'r themâu wedi ei seilio ar flaenoriaethau yn Nghynllun y Cyngor. Mae tabl yn nodi'r cyswllt o ran sut mae'r Amcanion Strategol yn ceisio ymateb i'r Materion Allweddol amlinellir sydd yn darparu strwythur clir ar gyfer cyflawni gweledigaeth y Cynllun.

Rhan 6 – Opsiynau Twf

4.11 Mae'r adran hon yn amlinellu'r sail dystiolaeth a'r ystyriaethau strategol sy'n llywio'r opsiynau twf ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'n egluro'r berthynas rhwng twf poblogaeth, tai a chyflogaeth, gan bwysleisio'r angen i sicrhau bod lefel y twf yn cefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Mae'r adran yma'n cyflwyno'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu opsiynau twf gwahanol gan gynnwys ystyriaeth o berfformiad hanesyddol, rhagolygon demograffig a chyflogaeth sydd yn gyson a gwaith modelu safonol a gydnabyddir gan Llywodraeth Cymru. Cynigir 5 opsiwn twf i roi amrywiaeth digonol o opsiynau twf i ymgynghori arnynt.

Rhan 7 – Opsiynau Dosbarthiad Gofodol

4.12 Mae'r opsiynau ar gyfer dosbarthu twf tai o fewn ardal y Cynllun yn cael ei amlinellu yn yr adran yma, gan ddangos pedwar opsiwn gwahanol ar gyfer dosbarthu'r twf dros ardal y Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Opsiynau Twf

4.13 Comisiynwyd cwmni arbenigol '*Edge Analytics'* i lunio amrywiaeth o senarios ystadegol ar gyfer twf demograffig. Mae'r senarios hyn yn **seiliedig ar broffil demograffig yr ardal, tueddiadau'r gorffennol a gwybodaeth am adeiladu tai, ynghyd â rhagamcanion**

poblogaeth ac aelwydydd a rhagolygon cyflogaeth Llywodraeth Cymru (sy'n seiliedig ar ddata 2022). Mae'r opsiynau twf a nodir yn y ddogfen yn deillio o'r gwaith hwn.

4.14 Nid bwriad y gwaith hwn yw i osod ffigwr tai na chyflogaeth terfynol i'r cynllun, ond i ddarparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ystyried ystod eang o opsiynau twf, sy'n gyson gyda disgwyliadau sydd wedi osod allan mewn canllawiau gan Lywodraeth Cymru, er mwyn sbarduno trafodaeth.

4.15 **Rhaid pwysleisio, ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yn hyn ac nad oes unrhyw opsiwn twf yn cael ei ffafrio gan mai dyma'r cam cyntaf yn y broses o ymgynghoriad cyhoeddus.** Pan fydd y broses ymgynghori wedi'i chwblhau, bydd y Cyngor yn paratoi adroddiad ymgynghori a fydd yn tynnu sylw at y sylwadau a dderbyniwyd. Bydd ymatebion a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad yn cael ei hystyried wrth baratoi'r Hoff Strategaeth, sef y cam statudol nesaf yn y broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

4.16 Mae'r ddogfen hon yn gam pwysig yn y broses o baratoi'r Cynllun newydd. Fodd bynnag un cam ydyw yn unig yn y broses ehangach o gasglu tystiolaeth, ymgysylltu ac asesu opsiynau cyn paratoi Hoff Strategaeth fydd destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân yn y cam nesaf o'r broses. Mae **Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn pwysleisio'r angen i ystyried amrywiaeth o opsiynau rhesymol cyn datblygu'r hoff strategaeth.**

4.17 Mae angen i'r Hoff Strategaeth, sef y cam nesaf, nodi'r

- prif faterion a heriau ar gyfer ardal y Cynllun gan gynnwys gofynion strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Gweledigaeth ar gyfer y Cynllun sydd yn unigryw i amgylchiadau lleol
- Ymgorffori'r dull Creu Lleoedd
- Diffinio twf tai a chyflogaeth ar gyfer cyfnod y cynllun sydd wedi selio ar dystiolaeth cadarn, a sut bydd y twf yma'n cael ei ddosbarthu.
- Nodi safleoedd/ardaloedd twf allweddol (os yn briodol)
- Polisïau strategol allweddol i gyflawni'r weledigaeth yr amcanion a'r strategaeth
- Atodiad yn nodi pa polisïau o'r cynllun presennol sydd yn cael cadw, diwygio neu dileu
- Asesiadau hyfywedd i gefnogi'r safleoedd allweddol/strategol (os oes angen)
- Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol bydd yn cael ei pharatoi/diweddaru

5. Cwestiynau Ychwanegol

- Pa wybodaeth a thystiolaeth sydd yn sail i'r dewisiadau strategol, gweledigaeth ag amcanion?

  Mae'r papur yn atodiad 1 sydd gyda'r opsiynau strategol, y weledigaeth a'r amcanion wedi eu datblygu ar sail ystod eang o dystiolaeth, yn cynnwys polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, canllawiau Llywodraeth Cymru, perfformiad y Cynllun Datblygu Lleol presennol. Cafwyd mewnbwn gan y Gweithgor Polisi Cynllunio ag adrannau'r Cyngor Mae ymgynghoriad anstatudol hefyd wedi ei gynnal i canfod barn trigolion a gweithwyr lleol am beth sydd yn bwysig iddyn nhw am ei hardal. Mae'r materion, heriau a chyfleoedd allweddol a nodwyd yn y dystiolaeth wedi cyfrannu at ddatblygu'r weledigaeth a'r amcanion strategol.

  Mae'r opsiynau twf wedi eu seilio ar waith modelu demograffig ac economaidd a gynhaliwyd gan Edge Analytics, gan ddefnyddio rhagolygon poblogaeth, aelwydydd a

chyflogaeth Llywodraeth Cymru, ynghyd â data hanesyddol am ddatblygiadau tai a thueddiadau lleol.

- Beth oedd sylwadau aelodau'r Gweithgor Polisi Cynllunio ar y ddogfen?

  Mae cofnod drafft o gyfarfod y Gweithgor Polisi Cynllunio ar y 23 Hydref 2026 ac ymateb swyddogion yn atodiad 3. Cododd Aelodau'r Gweithgor nifer o gwestiynau a sylwadau ynghylch:

  - Eglurder y data a'r fethodoleg sy'n sail i'r opsiynau twf.
  - Oes oedd y rhagolygon cyflogaeth a phoblogaeth yn realistig.
  - Y berthynas rhwng tai, poblogaeth a chyflogaeth.
  - Goblygiadau datblygiadau economaidd posibl, gan gynnwys datblygiadau fel Gwyndod (Wylfa Newydd).
  - Rôl Bangor a gwahanol ardaloedd o ardal y Cynllun.
  - Y berthynas rhwng y Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
  - Effaith yr opsiynau twf ar y Gymraeg a chymunedau Cymraeg.
  - Y broses a ddefnyddiwyd i leihau'r rhestr o opsiynau a datblygu'r pum opsiwn twf a'r pedwar opsiwn dosbarthiad.

- Beth sydd wedi newid o ganlyniad i'w sylwadau?

  Yn dilyn trafodaethau'r Gweithgor, gwnaed rhai diwygiadau i'r ddogfen, gan gynnwys:

  - Cywiro rhai gwallau teipio a gwallau ffeithiol bychain mewn tablau.
  - Ychwanegu testun eglurhaol i ddarparu mwy o wybodaeth am y rhesymeg dros ddewis y pum opsiwn twf a'r pedwar opsiwn dosbarthiad gofodol a gyflwynir ar gyfer ymgynghori.

- Faint o sylw sydd wedi ei roi i'r laith Gymraeg a chymunedau Cymraeg wrth baratoi'r ddogfen?

  Roedd y Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg yn ystyriaeth bwysig wrth baratoi'r ddogfen. Wrth adnabod y materion allweddol, cafodd tystiolaeth ynghylch nodweddion demograffig, cymdeithasol a diwylliannol yr ardal ei hystyried, gan gynnwys ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar hyfywedd a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

  Mae'r amcanion strategol wedi eu datblygu yng nghyd-destun blaenoriaethau'r Cyngor a'r gofynion polisi cenedlaethol sy'n cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan o lesiant diwylliannol cymunedau. Yn ogystal, bydd effaith y Cynllun ar y Gymraeg ac yn ystyriaeth allweddol, yn ogystal ac ystyriaeth o'r holl faterion cynllunio eraill, gyda hynny'n digwydd yn y cam nesaf fydd yn asesu'r opsiynau twf a dosbarthiad wrth baratoi'r Hoff Strategaeth.

Yn ystod trafodaethau'r Gweithgor, amlygwyd yr angen am dystiolaeth bellach ynghylch goblygiadau'r opsiynau twf ar y Gymraeg, a chodwyd cwestiynau ynghylch pa opsiynau fyddai fwyaf cefnogol i gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Pwysleisiwyd nad ar y cam yma gwneir asesiad o'r opsiynau twf i gynnwys ystyriaeth o'r Gymraeg a'r holl ystyriaethau cynlluniau eraill. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried ymhellach yn cam nesaf ac fel rhan o'r gwaith asesu ac wrth gasglu tystiolaeth ychwanegol cyn penderfynu ar Hoff Strategaeth y Cynllun.

6. Ymgynghori

6.1 Mae aelodau'r Gweithgor Polisi Cynllunio wedi cael mewnbwn i'r broses o lunio'r materion allweddol, datblygu gweledigaeth a'r amcanion strategol. Ar gais y Gweithgor, cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol ym mis Ionawr, prif bwrpas yr ymgynghoriad oedd casglu gwybodaeth a barn i helpu sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y Cynllun. Cafodd ymatebion i'r ymgynghoriad eu hadrodd i'r Gweithgor ym mis Gorffennaf lle cadarnhawyd bod yr holl faterion a godwyd, a oedd yn ymwneud â pholisi cynllunio, wedi'u amlinellu yn y materion allweddol.

6.2 Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gweithgor i drafod yr opsiynau twf a dosbarthiad ar 23/10/26. Mae'r cofnodion drafft o cyfarfod y Gweithgor wedi ei gynnwys yn Atodiad 3[1]. Mae crynodeb o'r brif faterion godwyd fel rhan o'r drafodaeth wedi ei nodi uchod.

6.3 Mae ymgynghoriad hefyd wedi bod gydag holl Adrannau'r Cyngor a bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu hystyried a'u bwydo mewn i'r broses ag mi fydd trafodaeth parhaus drwy gydol y broses.

7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

7.1 Fel nodwyd eisoes cynhaliwyd ymgynghoriad anstatudol yn gynnar ym 2026 efo'r bwriad o gasglu gwybodaeth a barn i helpu sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y Cynllun. Mae ymgynghoriadau hefyd wedi cychwyn gydag Adrannau eraill y Cyngor.

7.2 Bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Ionawr 2027 ar y ddogfen Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol, Opsiynau Twf a Dosbarthiad Strategol. Y gofyn statudol ar gyfer y cam yma ydi '*cynnwys y cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol cyn i'r ACLl ymgynghori ar y hoff strategaeth'* (Llawlyfr Cynlluniau Datblygu). Mae'r cyrff ymgynghori penodol a chyffredinol wedi ei rhestru yn y Cytundeb Cyflawni. Er mwyn sicrhau fod y broses yn gynhwysol bwriedir mynd tu hwnt i'r gofyn statudol a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhoi cyfle i bawb fynegi barn ar wahanol opsiynau twf posib i'r cynllun a sut bydd y twf yma'n cael ei ddosbarthu o fewn ACLl Gwynedd.

[1] Nid yw'r cofnodion wedi cael ei gytuno gan y Gweithgor gan fod cyfarfod nesaf o'r gweithgor ddim wedi ei gynnal hyd yma.

7.3 Y bwriad yw cynnwys cwestiynau ymgynghori penodol yn nrafft ymgynghori'r ddogfen er mwyn annog sylwadau sydd yn berthnasol i'r ddogfen:

Prif Faterion Allweddol

1. Ydych chi'n cytuno â'r materion allweddol? A oes materion allweddol eraill y dylid eu cynnwys, neu a oes angen newid neu ddileu unrhyw un o'r materion allweddol?

Gweledigaeth

2. Ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth ar gyfer ardal y Cynllun?

Amcanion Strategol

3. Beth yw eich barn ar yr Amcanion Strategol a awgrymir? A oes angen ychwanegu unrhyw amcanion pellach?

Opsiynau Twf Strategol

4. Pa opsiwn twf, yn eich barn chi, sydd orau i ymateb i Weledigaeth a Amcanion Strategol y Cynllun?
5. Pa opsiwn twf sydd orau gennych? Eglurwch eich ateb, os gwelwch yn dda.
6. A oes opsiwn twf arall? Os felly, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda.

Opsiynau Dosbarthiad Gofodol

7. Pa opsiwn dosbarthiad gofodol, yn eich barn chi, sydd orau i ymateb i Weledigaeth a Amcanion Strategol y Cynllun?
8. Pa opsiwn dosbarthiad gofodol sydd orau gennych? Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda.
9. A oes opsiwn dosbarthiad gofodol arall? Os felly, rhowch fanylion, os gwelwch yn dda.

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

7.4 Mae'r ddogfen wedi ei llunio drwy ystyried tystiolaeth, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae ymgynghoriad wedi bod efo gwasanaethau perthnasol o fewn y Cyngor, ac mae trafodaethau wedi bod gyda'r Gweithgor Polisi Cynllunio. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn cydnabod yr angen am gydweithio parhaus gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, awdurdodau cyfagos, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill wrth ddatblygu'r Hoff Strategaeth. Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y ddogfen yn rhoi cyfle pellach i gasglu barn a thystiolaeth gan ystod eang rhanddeiliaid.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

7.5 Mae'r ddogfen wedi adnabod prif faterion sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth cadarn am ddemograffeg, tai, cyflogaeth, yr economi, yr amgylchedd, newid hinsawdd, seilwaith a'r Gymraeg. Trwy adnabod y heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu ardal cynllunio lleol Gwynedd mae'n bosib sicrhau fod y CDLl yn gallu ymateb iddynt. Wrth rhoi cyfle i

rhanddeiliaid rhoi sylwadau ar nifer o opsiynau twf a dosbarthiad gofodol cyn symud ymlaen i'r Hoff Strategaeth bydd cyfle i ystyried y sylwadau hyn a dewis strategaeth sydd yn fwy tebygol o fynd i'r afael â heriau'r dyfodol a lleihau risgiau hirdymor

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

7.6 Mae'r ddogfen yn rhan o'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y cyfnod 2024-2039 sydd felly yn canolbwyntio ar anghenion hirdymor cymunedau Gwynedd. Wrth ddatblygu'r opsiynau twf defnyddiwyd rhagolygon poblogaeth, aelwydydd a chyflogaeth, ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau hanesyddol a materion lleol. Mae'r ddogfen yn ceisio deall sut y gall y Cynllun ymateb i'r materion allweddol sydd wedi ei ddatblygu a chynnwys yn y ddogfen. Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i sicrhau bod y weledigaeth ac amcanion y Cynllun yn adlewyrchu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

7.7 Mae'r materion allweddol, y weledigaeth, yr amcanion strategol a'r opsiynau twf wedi eu datblygu yng nghyd-destun polisïau cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, ac yn ystyried goblygiadau ar gyfer meysydd megis trafnidiaeth, addysg, iechyd, seilwaith, rheoli adnoddau naturiol a gwasanaethau cymunedol. Mae'r ddogfen yn nodi lle yn briodol polisïau, strategaethau a blaenoriaethau cyrff cyhoeddus eraill a fel nodwyd eisoes y bydd yn bwysig cyd weithio yn agos efo'r ACLl cyfagos wrth ddatblygu'r CDLl. Mi fydd yr ymgynghoriad yma yn gyfle i cyrff cyhoeddus eraill cael rhoi ei barn ar opsiynau dosbarthiad gofodol ag mi fydd ymgysylltu pellach yn digwydd fel mae'r cynllun yn datblygu.

8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Dim yn berthnasol i'r adroddiad yma ar cam yma yn y broses. Mi fydd asesiad effaith yn cael ei baratoi yn y camau priodol o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

9. Camau Nesaf

9.1 Cyn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus bydd y ddogfen yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 8 Rhagfyr 2026 yn gofyn am sylwadau ar y ddogfen ymgynghori ac am yr hawl i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2027. Bydd sylwadau'r Gweithgor Polisi Cynllunio a'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'r Cabinet.

9.2 Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd y Gwasanaeth Polisi Cynllunio yn ystyried yr holl sylwadau. Bydd gwaith o gasglu tystiolaeth a pharatoi papurau cefndir yn parhau, gan gynnwys comisiynu, lle bo angen, astudiaethau a gwaith technegol ychwanegol. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei ystyried wrth baratoi'r Hoff Strategaeth.

Atodiadau

Atodiad 1: Prif Faterion, Gweledigaeth, Amcanion Strategol ac Opsiynau Twf a Dosbarthiad Strategol CDLl Gwynedd drafft (2024-2039)

Atodiad 2: Camau o baratoi Cynllun Datblygu Lleol

Atodiad 3: Cofnod Drafft o cyfarfod o'r gweithgor polisi cynllunio